# Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod Microsoft Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 7 Ebrill 2025 |
| **Aelodau yn bresennol:** | Yr Athro Rhys A. Jones, aelod o fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (cadeirydd)<br>Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant<br>Sarah Hetherington, CNC<br>David Ball, Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (AHDB)<br>Nichola Salter, CNC<br>Einir Williams, Cyswllt Ffermio<br>Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru<br>Jon Goldsworthy, CNC<br>Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Marc Williams, CNC<br>Gemma Haines, Undeb Amaethwyr Cymru<br>Elen G. Richards, CNC<br>Michelle Griffiths, CNC<br>Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin<br>Sarah James, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad<br>Chris Mills, Afonydd Cymru<br>Russ Thomas, Hybu Cig Cymru |
| **Hefyd yn bresennol:** | Iwan Williams, CNC<br>Eirian Macdonald, CNC |
| **Ymddiheuriadau:** | Gareth Parry, Undeb Amaethwyr Cymru<br>Delyth Lewis-Jones, AHDB<br>Sarah Jones, Dŵr Cymru Welsh Water<br>Matt Walters, Llywodraeth Cymru<br>Catherine Osborne, Llywodraeth Cymru<br>Fraser McAuley, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Bronwen Martin, CNC |

## Eitem 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datgan buddiannau

1. Croesawodd yr Athro Rhys A. Jones (aelod o fwrdd CNC a chadeirydd Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol) bawb i'r cyfarfod Microsoft Teams a nodwyd yr ymddiheuriadau ganddo. Soniodd Rhys fod Dr Susannah Bolton wedi bod mewn damwain ddifrifol dros y penwythnos ac felly nad oedd yn gallu mynychu'r

cyfarfod hwn. Diolchodd Rhys i Susannah am ei gwaith ar yr adolygiad ac am ymgysylltu â'r grŵp gydol y broses. Dymunodd y grŵp pob dymuniad da i Susannah gyda'i hadferiad.

2. Nodwyd bod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion llunio'r cofnodion ac y câi'r ffeil ddigidol ei dileu ar ôl i gofnodion y cyfarfod gael eu cymeradwyo.

3. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas â'r eitemau ar yr agenda.

   - NODER: Mae holl aelodau'r grŵp eisoes wedi cwblhau ffurflenni datgan buddiannau ond nodwyd y dylent hefyd wneud datganiad pe bai ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

## Eitem 2. Adolygu cofnodion a chamau gweithredu

4. Cadarnhaodd Rhys y câi cofnodion y cyfarfod eu cyhoeddi ar wefan CNC ar ôl i'r grŵp eu hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol fel eu bod ar gael i'r cyhoedd. Nododd ei bod yn bwysig felly bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.
5. Adolygodd y grŵp gofnodion blaenorol y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Ionawr 2025 (ni chynhaliwyd cyfarfodydd ym mis Chwefror na mis Mawrth). Derbyniwyd cofnodion mis Ionawr fel cofnod cywir.

6. Rhannodd Bronwen y cofnod o'r camau gweithredu a oedd ar y gweill o hyd a rhoddwyd diweddariadau ar lafar yn eu cylch pan fu modd.

## Eitem 3. Cyfathrebiadau is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru

7. Roedd hwn yn gyfle i drafod y llythyr a oedd yn cyfleu'r penderfyniad i integreiddio aelodaeth yr is-grŵp i Fforwm Rheoli Tir Cymru. Bydd y grŵp yn derbyn gwahoddiadau'n awtomatig i ymuno â chyfarfodydd Fforwm Rheoli Tir Cymru yn y dyfodol (oni bai eu bod am 'optio allan'). Bydd cylch gorchwyl Fforwm Rheoli Tir Cymru hefyd yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau. Cynhelir cyfarfod nesaf Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Mehefin 2025 – gwahoddiadau i ddilyn.

8. Dyma gyfarfod olaf is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Diolchodd Rhys i'r grŵp am eu hamser a'u cyfraniadau dros nifer o flynyddoedd. Bydd trafodaethau ar lygredd amaethyddol yn cael eu cynnal yn y Fforwm Rheoli Tir o hyn ymlaen ac mae sawl ymagwedd bosibl – er enghraifft, rhoi eitem sefydlog ar yr agenda, cynnal cyfarfod penodol ar y thema, neu gyfuniad o'r rhain. Nodwyd bod grwpiau sefydledig eraill yn edrych ar ansawdd dŵr a llygredd ac mae'n bwysig peidio â dyblygu'r ymdrech. Soniodd Rhys am y posibilrwydd y gallai is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ailgychwyn yn y dyfodol (os oes angen), ond ei bod yn debygol y byddai'n mabwysiadu fformat gorchwyl a gorffen i fynd i'r afael â gwaith penodol.

9. Bydd cylch gorchwyl Fforwm Rheoli Tir Cymru yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru yn unol â hynny – bydd drafft yn cael ei ddosbarthu i aelodau am adborth. Awgrymodd Rhys y gellid gwerthuso'r fformat newydd ymhen blwyddyn.

10. Trafododd y grŵp bryderon, gan gynnwys y risg bosibl o golli ffocws, a diffyg cyfathrebu a lledaeniad gwybodaeth rhwng cyfarfodydd chwarterol Fforwm Rheoli Tir Cymru. Roedd cytundeb cyffredinol y dylai un o bedwar cyfarfod Fforwm Rheoli Tir Cymru ganolbwyntio ar lygredd amaethyddol, ond cydnabuwyd yr angen i dreialu gwahanol

opsiynau a gweld beth sy'n gweithio trwy gynnal gwerthusiad. Hysbyswyd y grŵp y caiff papur diweddaru ysgrifenedig Fforwm Rheoli Tir Cymru ei gasglu cyn pob cyfarfod o'r fforwm – mae'r ddogfen hon yn cynnwys amrywiaeth o ddiweddariadau rheoli tir gan CNC ac mae llygredd amaethyddol yn rhan o'r diweddariadau. Cafodd y grŵp ei atgoffa bod llenwi agendâu wedi bod yn anodd yn y gorffennol ac anogir aelodau i ddod yn eu blaen ag awgrymiadau. Byddai'n ddefnyddiol cael cipolwg ymlaen llaw ar yr eitemau a awgrymir gan randdeiliaid.

## Eitem 4. Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: adolygiad 4 blynedd

11. Yn anffodus, nid oedd Dr Susannah Bolton (cadeirydd annibynnol) yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod. Rhoddodd Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru, drosolwg o'r broses adolygu a chrynodeb byr o argymhellion yr adroddiad ac yna trafododd rai o'r camau nesaf.

12. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru (LIC) Reoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) yn 2021. Ymateb Llywodraeth Cymru i broblemau llygredd amaethyddol ehangach sy'n effeithio ar yr amgylchedd ledled Cymru oedd y rheoliadau. O fewn y rheoliadau, mae gofyniad i adolygu'r rheoliadau bob pedair blynedd. Roedd LIC yn cydnabod bod gan y sector amaethyddol, ynghyd â chyrff amgylcheddol, datblygwyr a defnyddwyr dŵr eraill, bryderon sylweddol am effaith y rheoliadau. Roedd LIC am sicrhau bod yr adolygiad o'r rheoliadau yn deg a phenodwyd Dr Susannah Bolton yn gadeirydd annibynnol i oruchwylio'r adolygiad. Cydnabuwyd bod angen i'r cadeirydd annibynnol gael ymddiriedaeth ystod eang o randdeiliaid yn ogystal â meddu ar arbenigedd technegol i ddeall y materion o dan ystyriaeth – Susannah oedd yr unigolyn cywir ar gyfer y rôl honno, a dangoswyd hynny ym mharodrwydd yr holl randdeiliaid i ymgysylltu'n gadarnhaol â hi gydol y broses.

13. Yr hyn a oedd yn allweddol i asesu effeithiolrwydd y rheoliadau oedd ymgysylltu'n sylweddol â rhanddeiliaid, yn ogystal ag asesu'r dystiolaeth dechnegol. Mae mynediad at y rheoliadau a gallu ffermwyr i'w gweithredu yn allweddol i gyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ar gyfer y rheoliadau, ac rydym yn sicr yn cydnabod hynny. Roedd hefyd yn bwysig ein bod yn deall yr effeithiau ar y rhai y mae llygredd yn effeithio arnynt a'r meysydd lle nad yw'r rheoliadau o bosibl yn darparu digon o amddiffyniad. Roedd gan yr adolygiad rai amcanion lefel uchel:

    - adolygu effeithiolrwydd y mesurau a gyflwynwyd gan y rheoliadau i fynd i'r afael â llygredd dŵr
    - asesu'r cynigion o ran mesurau amgen ymhellach
    - ystyried y rheoliadau yng nghyd-destun yr argyfwng natur a hinsawdd a'n rhwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol ehangach

14. Er i'r rheoliadau gael eu cyflwyno yn 2021, cafodd darpariaethau trosiannol eu cynnwys i roi amser i ffermwyr addasu i'r rheoliadau. Er enghraifft, nid oedd rhai o'r agweddau mwy heriol, megis y rhai a oedd yn ymwneud â seilwaith, yn berthnasol tan fis Awst 2024.

15. O ganlyniad i'r ffordd y mae dalgylch yn gweithredu, gall gymryd degawdau i ansawdd dŵr mewn afonydd ymateb i newidiadau mewn arferion rheoli tir. Felly, mae'n anodd asesu effaith y rheoliadau a'r mesurau eu hunain ar hyn o bryd, o ystyried y cyfnodau

pontio hynny a'r amser y mae'n ei gymryd i weld newid yn ansawdd y dŵr. O ganlyniad, mae'r asesiad o effeithiolrwydd y rheoliadau yn canolbwyntio ar y canlynol:

- y rhwystrau a'r heriau mae ffermwyr yn eu hwynebu wrth weithredu'r rheoliadau
- effeithiolrwydd y mesurau presennol i atal llygredd
- asesu'r cynigion ar ran y mesurau amgen posibl ymhellach
- ystyried y bylchau rheoleiddiol

16. O ran y dystiolaeth dechnegol, ystyriwyd ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys asesiad o adolygiad maetholion CNC o risgiau nitrogen a ffosfforws, data CNC ar afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, data ar ddalgylchoedd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, data ar ddigwyddiadau llygredd amaethyddol a gadarnhawyd, ac amrywiaeth o dystiolaeth wyddonol ac agronomegol arall, yn ogystal â chyflwyniadau rhanddeiliaid ar lygredd dŵr a'r effeithiau.

17. Ymgysylltodd Susannah ag ystod eang o randdeiliaid i ddeall y problemau ar lawr gwlad o safbwynt y ffermwr a safbwynt y defnyddiwr dŵr. Trafododd Andrew yr adborth a gafwyd gan randdeiliaid. Roedd rhai o'r materion allweddol a godwyd yn cynnwys y canlynol:

    - gofynion y rheoliadau o ran cadw cofnodion y rheoliadau
    - pryderon sylweddol ynghylch cymhlethdod a pherthnasedd y rheoliadau i ffermydd
    - yr effeithiau ar lesiant ffermwyr a'r gallu i gydymffurfio â'r rheoliadau (e.e. mae cadw cofnodion yn faes sylweddol o ddiffyg cydymffurfio)
    - pryderon sylweddol ynghylch y cyfnodau caeedig a beirniadaeth am y 'dull ffermio yn ôl calendr', er bod cydnabyddiaeth fod cyfnodau penodol yn rhoi eglurder i ffermwyr ynghylch y gofynion a'r gallu i nodi pan mae achosion o dorri rheoliadau wedi digwydd
    - pryderon sylweddol ynghylch effeithiau economaidd y terfyn nitrogen, yn benodol y terfyn o 170 kg/ha a'r effeithiau canlyniadol ar arferion presennol parthed rheoli tail, hyfywedd ffermydd, a'r effeithiau economaidd posibl ar y gadwyn gyflenwi
    - roedd amrywiaeth o randdeiliaid o'r farn nad yw'r rheoliadau'n mynd i'r afael â risgiau llygredd ffosfforws yn ddigonol
    - nodwyd bod rheoli pridd yn gap rheoleiddiol sylweddol, gyda rheoli pridd yn wael yn cyfrannu at lygredd maetholion a gwaddodiad mewn afonydd

18. O ran yr argymhellion, mae'n amlwg o'r dystiolaeth fod pwysau amgylcheddol sylweddol yn gysylltiedig ag arferion amaethyddol. Mae natur y rheoliadau hefyd wedi bod yn hynod heriol i ffermwyr o ran eu gweithredu. Nodwyd mai dull Llywodraeth Cymru o dargedu achosion o lygredd yn hytrach na mabwysiadu dull daearyddol oedd yr un cywir. Fodd bynnag, mae lle i wella drwy wneud y rheoliadau'n fwy cymesur, yn gliriach ac yn decach. Nodwyd bod bylchau yn y rheoliadau y dylid mynd i'r afael â nhw.

19. Mae 23 o argymhellion yn yr adolygiad sy'n canolbwyntio ar dargedu'r rheoliadau'n well ar gyfer gweithgareddau llygru, lleihau'r baich rheoleiddiol ar weithgareddau ffermio risg isel, a gwella hygyrchedd y rheoliadau er mwyn rhoi eglurder i ffermwyr ar sut i'w gweithredu. Mae LIC hefyd yn ystyried archwilio mesurau amgen ymhellach, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r cyfnodau caeedig a'r terfyn o 170 kg/ha. Mae LIC eisiau ceisio sicrhau y gall y rheoliadau hwyluso arloesedd yn hytrach na bod yn

rhwystr o fewn y sector. Mae LIC hefyd eisiau mynd i'r afael â bylchau rheoleiddiol – er enghraifft, mesurau diogelu pridd a gwelliannau i ofynion cynllunio o ran rheoli maethynnau.

20. O ran ymateb Llywodraeth Cymru, cyhoeddwyd [datganiad ysgrifenedig] gan y Dirprwy Brif Weinidog. Mae'r datganiad ysgrifenedig yn tynnu sylw at y ffaith bod llygredd yn parhau i effeithio'n andwyol ar ansawdd dŵr yng Nghymru, a bod rhaid parhau i wneud gwelliannau. Mae'n cydnabod nad yw achosion llygredd yn gyfyngedig i unrhyw sector yn benodol, ond mae amaethyddiaeth yn parhau i fod yn un o'r prif gyfranwyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weithredu'r 23 argymhelliad yn llawn. Mae'r datganiad ysgrifenedig hefyd yn cadarnhau bod yr adolygiad wedi nodi mai'r dull cyffredinol yr ydym wedi'i fabwysiadu yw'r un gywir ac y bydd y rheoliadau'n parhau fel ag y maent hyd nes y bydd yr argymhellion yn cael eu gweithredu.

21. Mae'r argymhellion yn amrywio o ran eu cymhlethdod, ond mae rhai agweddau y dylai Llywodraeth Cymru allu eu datblygu ar fyrder. Mae'r rhain yn cynnwys elfennau sy'n ymwneud â diffiniadau a'r termau a ddefnyddir yn y rheoliadau i roi eglurder i ffermwyr ac i helpu i'w gweithredu. Rydym hefyd eisiau gweithredu newidiadau'n gyflym a fydd yn gwneud y rheoliadau'n decach ac yn fwy cymesur. Er enghraifft, os nad yw storfa yn cydymffurfio'n dechnegol â'r rheoliadau, ond nad yw'n peri risg i'r amgylchedd, rydym am archwilio'r posibilrwydd o gyflwyno esemptiadau. Yn yr un modd, yn achos rheolaethau TB pan mae fferm yn ddarostyngedig i'r rheolaethau hyn ac mae hyn yn creu problemau o ran cydymffurfio â'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, rydym am archwilio esemptiadau priodol.

22. Cydnabu Andrew y bydd yn eithaf heriol canfod sut i roi argymhellion penodol ar waith. Ni fydd angen ymgynghoriad ffurfiol o reidrwydd mewn rhai achosion, ond byddai gofyn cynnal ymgynghoriad ffurfiol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn achos newidiadau mwy sylweddol. Mae'n bosibl y bydd lefel yr arbenigedd yn amrywio yn dibynnu ar y pynciau, ond byddwn yn gweithio'n agos iawn gydag ystod eang o randdeiliaid, fel yr ydym wedi'i wneud gydol y broses adolygu. Yn ogystal â hyn, efallai y bydd angen sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen technegol â ffocws am gyfnod penodol. Y prif nod yw dechrau gweithio yn ddi-oed i wneud newidiadau a fydd o fudd i'r amgylchedd ac i ffermwyr.

23. Roedd Chris Mills, Afonydd Cymru, yn cofio nad oedd wedi bod yn bosibl mesur effeithiolrwydd y rheoliadau ar yr achlysur hwn. Fodd bynnag, ymhen pedair blynedd, bydd adolygiad pellach. Awgrymodd Chris, er mwyn adolygu eu heffeithiolrwydd, fod angen rhyw fath o linell sylfaen i fesur yr effeithiolrwydd yn ei herbyn. Gofynnodd Chris beth oedd cynlluniau Llywodraeth Cymru parthed sefydlu llinell sylfaen. Dywedodd Andrew fod CNC yn cynnal yr adolygiad maetholion, sydd i bob pwrpas yn cyflawni'r rhwymedigaeth statudol i gael rhaglen fonitro i ddeall y llinell sylfaen reoleiddiol. Fodd bynnag, mae rhai heriau sylweddol yn gysylltiedig â sefydlu llinell sylfaen, o ran y problemau a'r effeithiau niferus ar ansawdd dŵr, ond hefyd ar weithrediad y dalgylch. Dywedodd Chris mai un o'r ffyrdd eraill o wneud hynny yw edrych ar gydymffurfedd â'r rheoliadau. Dywedodd Andrew eu bod yn gwneud hynny drwy'r dull gorfodi. Mae CNC yn casglu data ar lefelau cydymffurfedd a bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro cydymffurfedd. Bydd data yn cynyddu dros amser, ond rhaid i ni fod yn realistig o ran yr adnoddau sydd gennym i gynnal arolygiadau. Dywedodd Michelle Griffiths, CNC, ein bod wedi bod yn darparu diweddariadau chwarterol i'r grŵp hwn i roi blas iddo o sut yr ydym yn cynnal arolygiadau'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol a'r hyn yr ydym yn ei ganfod i fod yn faterion allweddol. Ar hyn o bryd, mae CNC yn cynnal crynodeb

blynyddol yn dilyn blwyddyn lawn gyntaf arolygiadau gan dîm y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol.

24. Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru, y bydd Grŵp Adolygu Ansawdd Dŵr yr undeb yn cyfarfod yn ddiweddarach yr wythnos hon i ystyried yr adolygiad ac ymateb dilynol Llywodraeth Cymru yn fanylach. Yn y cyfamser, roedd ein hymateb cychwynnol (ac adborth ein haelodau) yn siomedig ac yn rhwystredig. Mae llawer o'r argymhellion yn gwneud i ni feddwl bod hyn yn ymwneud â'r angen i ni fod yn fwy ystyriol ac adolygu mwy. Mae ffermwyr wedi anobeithio'n llwyr â'r rheoliadau hyn. Mae NFU Cymru wedi tynnu sylw at y pryderon ynghylch TB a'r rheoliadau hyn ers dros chwe blynedd. Mae ffermwyr yn cael eu gadael mewn amgylchiadau ofnadwy, gan orfod wynebu nid yn unig y torcalon o ddelio ag achosion o TB, ond o orfod dewis pa reoliadau y maent yn cydymffurfio â nhw – nid yw hon yn sefyllfa gynaliadwy na dichonadwy i unrhyw lywodraeth roi ffermwyr ynddi. Cwblhaodd dros 400 o ffermwyr arolwg Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr i roi adborth ar y rheoliadau hyn. Mae llawer o rwystredigaeth ynghylch yr anawsterau y maent yn eu hwynebu o ran gweithredu'r rheoliadau, ac, yn syml, nid yw Llywodraeth Cymru wedi deall y rhain. Mae ffermwyr bellach yn byw o dan gwmwl o fwy fyth o reoliadau. Nododd Rachel fod Llywodraeth Cymru wedi dweud mewn ymateb y byddant yn sicrhau bod unrhyw reoliadau newydd yn deg ac yn rhesymol. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi deall nad yw'r rheoliadau presennol yn deg, ac nad ydynt yn rhesymol. Yn ogystal â hyn, mae nifer o aelodau NFU Cymru wedi cysylltu â Rachel yn holi pa mor annibynnol oedd yr adolygiad, o ystyried bod y rhagair yn cyfeirio at 'ein' a 'ni'. Gofynnodd Rachel at bwy y mae'r 'ni' yn cyfeirio, oherwydd y credwyd bod Dr Susannah Bolton wedi'i phenodi yn gadeirydd annibynnol. Atgoffodd Rachel y grŵp o'r dorf enfawr o ffermwyr a oedd wedi ymgynnull ar risiau'r Senedd ychydig dros 12 mis yn ôl ac mai Parthau Perygl Nitradau oedd un o'u rhesymau dros ymgynnull. Yr oedd y cyhoeddiad am benodi cadeirydd annibynnol wedi meithrin lefel o ddisgwyliad o fewn y diwydiant ac nid yw'r teimladau cryf o fewn y diwydiant wedi diflannu. Yn y dyddiau nesaf, bydd NFU Cymru yn gweithio gyda'u Grŵp Adolygu Ansawdd Dŵr i benderfynu ar ein camau nesaf a'n hymateb.

    Yn y cyfamser, dywedodd Rachel fod gan NFU Cymru nifer o ymholiadau cychwynnol ynghylch yr adolygiad a gofynnodd i Andrew at bwy y dylid eu hanfon. Dywedodd Andrew fod yr adolygiad yn cydnabod adborth y Grŵp Ansawdd Dŵr a'r adborth a gafwyd gan randdeiliaid yn yr arolwg. Mae LIC yn cydnabod bod gweithredu'r rheoliadau yn heriol iawn i ffermwyr, ac mae'r argymhellion yn canolbwyntio ar welliannau i'r rheoliadau yn y cyd-destun hwnnw. Mae LIC hefyd yn cydnabod y dylem allu bwrw ymlaen â rhai o'r argymhellion yn gyflym, ond, wrth gwrs, mae gennym rwymedigaethau a phrosesau cyfreithiol i'w dilyn sy'n gysylltiedig â gwneud newidiadau i reoliadau. Mae angen dealltwriaeth bod angen inni ddilyn y broses briodol – yr adolygiad, a gadeiriwyd yn annibynnol, yw'r cam cyntaf yn y broses honno. Penodwyd Dr Bolton yn gadeirydd annibynnol i oruchwylio'r adolygiad, ond, yn amlwg, rydym wedi gweithio'n agos gyda hi, gan ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth, cydweithio ar ymgysylltu â rhanddeiliaid a drafftio'r adroddiad ei hun. O ran unrhyw ymholiadau, gofynnodd Andrew iddynt gael eu hanfon yn uniongyrchol ato, ac y bydd ef yn mynd â nhw ymhellach.

25. Dywedodd Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant, ei fod wedi darllen yr holl wybodaeth adolygu a ddarparwyd a soniodd fod Dr Susannah Bolton wedi rhoi ystyriaeth i bryderon Cymdeithas y Ffermwyr Tenant. Roedd Dennis yn cofio am achos diweddar pan gymerodd landlord bedair blynedd i ddarparu storfa slyri, a dim ond am

fod CNC wedi cyflwyno hysbysiad i'r landlord y digwyddodd hynny. Mewn achos diweddar arall, roedd tenant wedi cael archwiliad gan CNC ond nid oedd ganddo gynllun rheoli maethynnau ar y fferm ar y pryd gan ei fod yn parhau i fod yn nwylo'r darparwr. Ni roddodd yr arolygydd unrhyw amser iddo ei gyflwyno a rhoddodd gosb iddo ar unwaith a fydd yn dod allan o'i Gynllun Taliad Sylfaenol. Trafododd Dennis y cymhlethdodau i ffermwyr tenant a'r goblygiadau posibl o beidio â gallu ymuno â'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig. Dywedodd Andrew fod 'Argymhelliad 18' yn berthnasol i denantiaethau fferm ac yn ei gwneud yn ofynnol i LlC adolygu a yw darpariaethau o dan y ddeddfwriaeth denantiaeth berthnasol yn darparu digon o amddiffyniad, ac a ellid egluro'r cyfrifoldebau yn y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol trwy eu diffinio'n well. Dywedodd Iwan Williams, CNC, fod angen i bob fferm gydymffurfio, ond efallai y gellid dangos ychydig o drugaredd o ran yr amserlen i gyrraedd y sefyllfa honno – er bod hynny yn dibynnu ar risg amgylcheddol y fferm. Atgoffodd Iwan y grŵp fod gofynion y Rheoliadau Silwair, Slyri ac Olew Tanwydd Amaethyddol wedi bod ar waith ers 1991, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i ffermydd allu storio slyri am hyd at bedwar mis. Mae swyddogion CNC wedi gweld rhai ffermydd heb storfeydd slyri na digon o gapasiti. Mae angen i'r ffermydd hyn gydymffurfio, a bydd CNC yn gweithio gyda'r ffermwyr yn y cyd-destun hwnnw. Bydd yr amserlen yn dibynnu ar y risg amgylcheddol, ac, os oes risg amgylcheddol ddifrifol yna, yn anffodus, ni allwn ddangos trugaredd yn yr amgylchiadau hynny.

26. Awgrymodd David Ball, ADHB, na fyddai lefelau cydymffurfio yn fetrig effeithiol ar gyfer mesur effeithiolrwydd y rheoliadau. Fodd bynnag, byddai lefel uchel o gydymffurfedd yn dangos effeithiolrwydd gweithredu'r rheoliadau. Byddai angen canlyniad arnoch ac mae hynny'n dibynnu ar ansawdd dŵr, felly mae angen y metrigau ansawdd dŵr i asesu effeithiolrwydd y rheoliadau.

27. Cofiodd Creighton fod dau dîm Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol CNC wedi dechrau ar eu gwaith oddeutu mis Hydref 2023 a bod ffigurau cydymffurfedd hyd at fis Mehefin 2024 wedi'u rhannu gyda'r grŵp. Fodd bynnag, rydym yn bryderus nad ydym wedi cael diweddariad ers mis Mehefin 2024. Gofynnodd Creighton pryd byddai'r grŵp yn cael set fwy cyfredol o ffigurau gan fod hyn yn bwysig er mwyn gallu gwneud cwynion neu adrodd am ddigwyddiadau. Yn ogystal â hyn, mae cwestiynau yn codi ynghylch hygrededd timau arolygu CNC, gan fod pobl eisiau gwybod eu bod yn mynd allan, yn gwneud y gwaith ac yna'n adrodd yn ôl. Atgoffodd Michelle y grŵp fod CNC yn casglu adroddiad cryno diwedd y flwyddyn ar hyn o bryd, ond bod salwch staff wedi achosi rhywfaint o oedi wrth gwblhau'r adroddiad. Rhaid i CNC adrodd yn ôl i Lywodraeth Cymru, a'r gobaith yw y bydd y crynodeb hwnnw yn cael ei roi gerbron y grŵp hwn er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf. Yn y dyfodol, ni fydd adroddiad chwarterol yn cael ei ddarparu, ond y bwriad yw paratoi diweddariad blynyddol. Eglurodd Nichola Salter, CNC, y bydd yr adroddiad yn rhoi cipolwg hyd at ddiwedd y flwyddyn galendr ac yn ymestyn i'r flwyddyn ariannol (yn unol â'r gwaith cynllunio cyllid a busnes). Awgrymodd Rhys y dylid bras nodi cyflwyniad a thrafodaeth ar adroddiad arolygu'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol ar gyfer cyfarfod mis Mehefin Fforwm Rheoli Tir Cymru.

***AP 7 Ebrill 01: Iwan Williams, CNC, a Nichola Salter, CNC, i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am adroddiad arolygu'r Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yng nghyfarfod mis Mehefin Fforwm Rheoli Tir Cymru.***

28. Soniodd Gemma fod Undeb Amaethwyr Cymru wedi bod yn teimlo'n rhwystredig bod yr adolygiad yn argymell ystyried rheoleiddio pellach ac y byddai'n annog ffocws ar yr hyn

sydd eisoes yn aneffeithiol a darparu adnoddau i fynd i'r afael ag ef cyn unrhyw drafodaeth am ehangu'r rheoliadau. Roedd Undeb Amaethwyr Cymru hefyd yn bryderus am yr asesiad dangosol o'r terfynau 170 kg/ha oherwydd ei fod yn ategu pryderon blaenorol nad oedd gan Lywodraeth Cymru ddata sylfaenol pan gyflwynwyd y mesur hwnnw yn wreiddiol. Fodd bynnag, mae Undeb Amaethwyr Cymru yn croesawu'r cyfle i'w ystyried ymhellach.

Cododd Gemma bryderon hefyd ynghylch yr amserlenni ar gyfer datblygu'r rhaglen waith yn dilyn yr argymhellion, a phwysleisiodd y dylai 'gweithio'n gyflym' arwain at weithredu cyflym. Byddai'n siomedig iawn pe bai'n mynychu cyfarfod Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Mehefin i glywed nad oes dim wedi'i roi ar waith. Felly, byddai Undeb Amaethwyr Cymru yn gwerthfawrogi pe baent yn gweld diweddariadau cynnydd cyn gynted ag y bo modd. Roedd Andrew yn cydnabod y byddai'n anodd i ffermwyr dderbyn unrhyw ofynion rheoleiddio ychwanegol, yn enwedig o ystyried cymhlethdod y mesurau. Mae LlC yn dechrau datblygu'r rhaglen waith i weithredu'r argymhellion. O ran yr asesiad effaith dangosol ar gyfer 170 kg/ha, mae hynny'n anodd iawn gan nad oes gennym ddata sylweddol ar gyfer lefelau ffosfforws mewn priddoedd yng Nghymru a fyddai'n ein galluogi i gynnal asesiad priodol. Fodd bynnag, mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei ystyried wrth i ni fynd ati i weithredu'r argymhellion.

29. Cytunodd Sarah James, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad, â'r sylwadau ynghylch siom rhai am gynnwys yr adolygiad. Cyfeiriodd Sarah at y drafodaeth gynharach ac awgrymodd, nid yn unig fod angen llinell sylfaen arnom, ond bod angen derbynioldeb hefyd o ran yr elfen ansawdd dŵr. Er enghraifft, nid oes sôn am yr effaith y mae erydiad yn ei chael ar ansawdd dŵr nad yw o ganlyniad i reolaeth fferm. Mae aelodau Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad ger afon Wysg sy'n colli erwau o'u caeau yn llythrennol gan fod glan yr afon yn cael ei golchi i ffwrdd. Felly, mae angen inni ddeall cyfrifoldeb amaethyddiaeth o ran ansawdd dŵr a phwy arall sydd â chyfrifoldeb. Mae Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad wedi cysylltu ag CNC ynglŷn â'r mater hwn ac wedi gofyn sut y gall ffermwyr liniaru'r problemau hyn – mae ffermydd yn cael eu bwyta gan lif yr afon ac, yn swyddogol, nid ydynt yn cael gwneud unrhyw beth eu hunain. Nid oes trwyddedau ar gael nac unrhyw gyngor ar sut i liniaru.

Gofynnodd Sarah am y mecanweithiau sy'n ymwneud â chydymffurfedd, yn enwedig o ran materion sydd y tu allan i'r rheoliadau (e.e. y broses gynllunio). Mae cael storfa faw gyda chymorth grant drwy'r broses gynllunio yn wirioneddol anodd. Rhaid i ffermwyr oresgyn rhwystrau o fewn y broses i gydymffurfio – mae'r rhwystr penodol hwn yn nwylo'r awdurdodau lleol. Dywedodd Sarah y bydd cyfran o'r cyfrifoldeb yn cael ei rhoi yn nwylo'r perchennog tir bob amser oherwydd bod bod yn berchen ar dir yn golygu y gallwn ei reoli'n briodol. Fodd bynnag, mae angen inni ddeall maint y cyfraniad y mae amaethyddiaeth yn ei wneud a mesuriad y gostyngiad yn ein cyfraniad ni – mae angen rhywfaint o eglurder.

30. Diolchodd Rhys i'r grŵp am gymryd rhan yn y broses adolygu ac am y trafodaethau heddiw. Diolchodd Rhys hefyd i Andrew a Michelle am ymateb i gwestiynau yn absenoldeb Susannah. Mae'n dda clywed y gellir rhoi rhai o'r argymhellion ar waith yn gyflym. Efallai y gallai Fforwm Rheoli Tir Cymru neu grŵp gorchwyl a gorffen bach helpu gyda'r broses yn y tymor hwy parthed yr argymhellion, y bydd angen ymgynghoriad arnynt.

31. Cadarnhaodd Andrew y bydd yn gallu rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf yn ystod cyfarfod Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Mehefin.

32. Nodwyd y bydd llawer o sefydliadau aelodaeth Fforwm Rheoli Tir Cymru yn ymateb yn ffurfiol i gyhoeddiad yr adolygiad gan Lywodraeth Cymru.

## Eitem 5. Unrhyw faterion eraill

33. Cynhelir cyfarfod Fforwm Rheoli Tir Cymru ym mis Mehefin – bydd gwahoddiadau'n cael eu dosbarthu'n fuan.

34. Dangosodd y grŵp eu gwerthfawrogiad drwy ddiolch yn ffurfiol i'r Athro Rhys Jones am ei waith fel cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru a'r Is-grŵp ar Lygredd Amaethyddol, ac i Bronwen Martin am ei gwaith ysgrifenyddol. Roedd y grŵp hefyd yn cydnabod CNC am ddarparu'r ysgrifenyddiaeth ers i'r grwpiau gael eu sefydlu.

35. Ni chodwyd unrhyw fusnes arall.